www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Helpwch ni i gyrraedd Pump Uchaf twristiaeth

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Helpwch ni i gyrraedd Pump Uchaf twristiaeth

ymhellach draw ac i wledydd tramor, mae costau byw a chost nwyddau wedi cynyddu sy'n golygu bod y teulu nodweddiadol yn ymdopi gyda llai o arian parod.

"Mae pwysigrwydd cynyddol technoleg newydd yn golygu bod mwy a mwy o bobl yn prynu eu gwasanaethau gwyliau ar-lein.

"Ar ben hynny, mae'r boblogaeth yn heneiddio a'r her i ni yw sut i ymateb i'r newid mewn amgylchiadau pan fo mwy na 2,000 o gyrchfannau yn cystadlu â ni o fewn taith awyren dwy neu dair awr o Ogledd Cymru.

"Ailsefydlu Gogledd Cymru fel un o bum prif gyrchfan y DU yw ein gweledigaeth.

"Mae'r dyfodol yn dibynnu ar fanteisio i'r eithaf ar yr hyn sy'n gwneud yr ardal hon yn arbennig ac allan o'r cyffredin – y tirweddau godidog, y mynyddoedd a'r arfordir ysblennydd.

"Y newyddion gwych yw bod Gogledd Cymru yn agos iawn at ryw 16.5 miliwn o bobl sy'n gallu gyrru yma mewn rhyw ddwy neu dair awr – mae hynny bron yn 25 y cant o boblogaeth y DU.

"Mae gennym enw da iawn fel cyrchfan ar gyfer gwyliau awyr agored, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau fel mynydda, dringo, beicio mynydd, chwaraeon dŵr, neu ddim ond cerdded.

"Mae'r strategaeth yn cynnwys pedair thema integredig: cyfleu ein cryfderau unigryw, buddsoddi mewn cynnyrch sy'n rhagori a darparu profiad eithriadol, a dim ond wrth i ni i gyd weithio mewn partneriaeth gyda'n gilydd y gellir cyflawni hynny.

"Credwn y dylem fod yn gwerthu tocynnau mawr Gogledd Cymru, boed ein cestyll, ein gerddi a'n tai gwych neu Draphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte sydd wedi derbyn Statws Treftadaeth Byd yn ddiweddar.

"Un o'r ffordd o drosglwyddo'r neges mewn adegau anodd yn ariannol, o ran cyllideb, yw cael ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus cryf iawn fel bod negeseuon pwerus yn ymddangos ar y teledu ac mewn papurau newydd, straeon sy'n apelio at ein cwsmeriaid ac yn codi gwir awydd arnyn nhw i ddod yma.

"Mae'n bwysig buddsoddi mewn cynnyrch sy'n rhagori oherwydd y gystadleuaeth o gyrchfannau'r DU a chyrchfannau tramor, sy'n buddsoddi'n drwm yn eu cynnyrch eu hunain.

"Rydym yn chwilio am welliant parhaus yn ein stoc llety ac yn edrych yn arbennig ar sicrhau bod ein parciau gwyliau yn ail-fuddsoddi ac yn gwella - gyda gwell tirlun a lefelau dwysedd is.

Dewi Davies Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol PTGC

"Mae pobl yn teithio'n bell i ymweld ag atyniadau eiconig a chredwn fod gennym lawer ohonyn nhw – ac mae'n rhaid i ni ddal i fuddsoddi ynddyn nhw, boed ein cestyll, adeiladau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac atyniadau cyffrous fel Y Gelli Gyffwrdd.



"Gobeithio y byddwn yn gweld buddsoddiad yng nghalon Eryri ac yn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol eraill sydd gennym, o Benrhyn Llŷn ac Ynys Môn i Fryniau Clwyd.

"Rhaid i ni wneud pethau'n iawn o ran darparu profiad sy'n sefyll allan – mae angen i'r ymwelydd gael ei syfrdanu gan ein prif strydoedd a'n promenadau fel eu bod yn ffyddiog eu bod yn y lle iawn.

"Rydym yn bwriadu cael cynllun rheoli cyrchfan ar draws pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac rwy'n gobeithio y bydd hynny'n rhoi teimlad cryfach o lawer a mwy o dawelwch meddwl i'r defnyddiwr ei fod wedi cyrraedd yn union lle'r oedd yn bwriadu.

"Yn ogystal â digwyddiadau mawr fel Gŵyl y Faenol Bryn Terfel a'r Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol yn Llangollen, gall llwybrau eglwys a llwybrau treftadaeth gyfoethogi'r profiad diwylliannol.

"Mae gennym ffordd dda iawn yn ymestyn ar draws y Gogledd yn yr A55 ac mae'r A470 yn cael ei gwella'n barhaus. Rydym yn gobeithio gweld gwelliannau i'r system rheilffordd ac rydym eisoes wedi gweld cynlluniau cynnar i gynyddu nifer y llongau pleser sy'n dod i Gaergybi.

"O ran gwella sgiliau, rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Cholegau Addysg Bellach, y sector awyr agored, y sector parciau gwyliau a'r sector lletygarwch er mwyn gwneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael eu recriwtio.

"Rydym yn awyddus i wella eu sgiliau fel eu bod yn cael cyfle i gychwyn ar yrfa a fydd yn rhoi bodlonrwydd iddynt mewn bywyd.

"Mae pobl ifanc wedi bod yn gadael rhannau o Ogledd Cymru wrth eu miloedd i fyw a gweithio'r tu allan i'r ardal. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni ei wyrdroi oherwydd mae'n gwanhau'r hyn sydd gennym i'w gynnig.

"Mae twristiaeth yn ffordd o atgyfnerthu'r economi rhanbarthol a chryfhau ein cymunedau," ychwanegodd.

Cynhelir y cyfarfodydd yng Ngwesty Castell Rhuthun, Rhuthun, rhwng 12.30pm a 4.15pm ddydd Mawrth, 10 Tachwedd, yng Ngwesty Seiont Manor, Caernarfon, rhwng 12.30pm a 4.15pm ddydd Iau, 12 Tachwedd, ac yn Siambr Cyngor Llangefni rhwng 1.00am a 2.15pm. Bydd bwffe ar gael ym mhob lleoliad. Am mwy o fanylion cysylltwch ag Eirlys Jones trwy ebostio Eirlys.Jones@nwt.co.uk neu ffoniwch 01492 530059

www.tpnw.org